

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 21ain o Fai, 2020 drwy Zoom yn brydlon am 7:00 y.h.

Materion brys angen sylw oherwydd na ellir cynnal cyfarfod yn y man arferfol, oherwydd y COVID 19

1. Cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5fed o Fawrth 2020 - a'r cofnodion yn dilyn y materion brys a drafodwyd drwy ebyst/ffon ar 7fed o Ebrill 2020 y cofnodion wedi cael ei anfon drwy ebost at bawb. Bydd angen i'r Cadeirydd ei llofnodi a'i rhoi i'r Clerc ar ol y cyfarfod.
2. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth 2020 ac Ebrill 2020 (wedi cael ei caniatáu gan y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Cyfarfod Busnes drwy ebost cyn ei talu fis Ebrill) - bydd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld a'i llofnodi o flaen noson y cyfarfod.
3. Datgan buddiant personol.

4. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned:-

a) Cais Rhif: C20/0335/41/DT:- Pen y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd. - Bwriad: Estyniad deulawr ochr. **Angen penderfyniad.**

5. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2020 ymlaen.

Gwnaed penderfyniad gan y Cynghorwyr ar 5ed a'r 6ed o Ebrill 2020, drwy ebyst yn cytuno, oherwydd sefyllfa COVID19 eleni, y byddai'n anodd iawn cael prisiau, ac yn anodd cael gwneud y gwaith yn ol yr arfer. Felly, gofynwyd i'r Clerc ofyn wrth y 2 fu'n gwneud y gwaith barbio a chynnal a chadw'r Bedd llynedd, os y byddent yn fodlon gwneud y gwaith eto am y flwyddyn rhwng Ebrill 2020 - diwedd Mawrth 2021. Fe wnaeth y Clerc holi Mr Mel ab Owain, Un Llais Cymru, ac anfonodd ebost at y Clerc yn cadarnhau y byddai hyn yn iawn am eleni'n unig.

Y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Mr Clifford Hughes y byddai'n fodlon i wneud y gwaith eto ar gyfer y llwybrau canlynol am yr un bris a llynedd, ac wedi derbyn ei dystysgrif yswiriant cyfredol i wneud y math yma o waith hefyd.

- a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
- b. Llwybr o dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
- c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
- ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
- d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
- dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi, un toriad.

Mae am wneud y toriad cyntaf ganol Mehefin, a'r ail doriad ddechrau Medi.

Mae cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi eisioes yn bodoli hefo Mr Clifford Hughes, sef cytundeb wedi ei wneud yn 2018 am 3 mlynedd.

Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor Ebrill 2020 – Mawrth 2021 – mae'r Clerc wedi derbyn ebost gan Mr Gareth Jones, yn cadarnhau ei fod yn fodlon gwneud y gwaith o ofalu am y bedd eto eleni am yr un bris a llynedd.

6. **Pont Llanystumdwy - clirio tir y Cyngor yn Maenywern** - y Clerc wedi cael un pris, ac yn gobeithio cael un arall cyn y cyfarfod. **Angen penderfyniad.**

Materion yn y gymuned.

7. **Llanystumdwy**

a) **Cysylltiad "Band eang ffeibr"** - cais gan Gyngorydd o Lanystumdwy eisiau trafod cael cyswllt 'ffeibr' yn Llanystumdwy oherwydd fod y cyflymdra cyswllt yn araf deg. Mae wedi cysylltu hefo 'Openreach', ond yn ol ei gwefan nid oes bwriad yn y dyfodol agos i gael 'ffeibr' yno. **Y Clerc wedi ysgrifennu at Liz Saville Roberts AS ac Openreach ond heb dderbyn ymateb eto.**

b) **Maes Parcio** - cais gan aelod o'r cyhoedd yn dweud fod llawer o ddrain ag eiddew yn tyfu i mewn i erddi tai Caellwyd o'r maes parcio. **Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd ac ADRA.**

8. **Chwilog**

Llwybr troed o Chwilog i Afonwen

Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Dafydd Elis Thomas, Aelod Cynulliad ar 27.02.2020, ac fe wnaeth anfon copi o lythyr gan Mr Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod cais am arian grant drwy gronfa Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi cael ei gyflwyno i ddatblygu'r llwybr yma, gan ddisgwyl penderfyniad ar y cais ym mis Ebrill eleni. **Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dafydd Williams I ofyn am ddiweddariad ond heb dderbyn ymateb eto.**

9. **Llangybi**

Pont i fyny am Brychyni o Ynys Wen-mae cerrig wedi syrthio oddi ar y bont - Y Clerc wedi anfon llythyr a lluniau at Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

10. **COVID-19** - Y Clerc wedi rhannu posteri o gwmpas y pentrefi (ac wedi cael ei roi ar y gwefanau cymdeithasol) a'r hysbysfyrddau yn dangos manylion cyswllt y Cyngorwyr i gyd, a phoster yn dangos manylion busnesau lleol sy'n cynnig gwasanaethau lleol, e.e.danfôn neges. Mae'r Cyngorydd Aled Evans wedi bod yn ffonio trigolion y gymuned i weld os ydynt angen cymorth o unrhyw fath, ac mae aelodau o Fenter y Plu, a sawl aelod arall wedi bod yn rhoi cymorth o bob math i'r cyhoedd yn yr adeg anodd yma.

10. **Archwilio mewnol Cyfrifon 2019 - 2020** - y Clerc wedi derbyn ffurflen i'w chwblhau gan Ms Luned Fón Jones, Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd i'w hysbysu pryd fydd y cyfrifon a'r dogfennau perthnasol yn barod ar gyfer cael ei archwilio. Bydd angen iddynt fod yn barod erbyn y cyfarfod blynyddol.

11. **Cyfarfod Blynyddol** - ei gynnal drwy Zoom ar 4ydd o Fehefin 2020.

Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Bydd y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.03.2020.

13. **Praesept**-wedi derbyn y taliad cyntaf, sef £9000.00 gan Cyngor Gwynedd 29.04.2020.

14. **Cyflog Clerc**:- Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru+ SLCC/ALCC ar 7.12.18, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol, (er fod yr SLCC wedi cadarnhau ar 20.04.2020 fod yna drafodaethau i codi canran tua 2.75% o'r 01.04.2020 ymlaen-nid yw hyn wedi digwydd eto).

Hefyd, i gymhlethu pethau, llynedd fe wnaethant newid y rhifau sydd ar y raddfa cyflog o ddechrau Ebrill 2019, oherwydd y 'cyflogau byw cenedlaethol'. Felly bydd cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 - 12, yn lle 18 - 22, o'r raddfa cenedlaethol SCP.

Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2020 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 8 i pwynt 9, sef o £10.37 i £10.57 yr awr, x 35 awr y mis = £369.95.**

Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. Cyflog

1.1 "Mae eich cyflog yn unol â phwynt cyflog NJC ar gyfer clercod rhan amser sef ar raddfa LC1 – SCP 18-22.

1.2 Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."

Angen penderfynu os yw hyn yn foddhaol, a bod y graddfa cyflog yn codi.

15. Anfonebau angen eu talu:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
Zurich Municipal	Yswiriant blynyddol rhwng 01.06.2020-31.05.2021	<u>656.18</u> <u>(44349894)</u>	<u>78.74</u>	<u>734.92</u>	<u>734.92</u>

Cyflog mis Ebrill 2020 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS yn lle sic oherwydd sefyllfa y COVID19:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2020 35 awr x £10.57 =	369.95 - llai treth £74.00	<u>295.95</u>	<u>295.95</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2020	370.00 x 20% = £74.00	<u>74.00</u>	<u>74.00</u>
Costau'r Clerc Ebrill 2020	£16.00	<u>16.00</u>	<u>16.00</u>